Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofalwyr

Os ydych chi wedi cael asesiad ac yn gymwys i dderbyn gwasanaeth gofal cymunedol, yna bydd taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig i chi.

Yn lle derbyn gwasanaethau gan y Cyngor, gallwch ddewis derbyn yr arian a phrynu'r gwasanaeth o rywle arall. Mae hyn yn rhoi mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd i chi, gan mai chi sydd yn rheoli pwy sydd yn darparu'r gofal/gwasanaeth a phryd.

Bydd yr arian yn cael ei dalu i gyfrif banc pwrpasol ar gyfer talu cyflogau a threuliau perthnasol. Gallwch ddefnyddio'r arian i benderfynu sut i gwrdd â'ch anghenion personol sydd yn eich Cynllun Gofal. Ni chaiff y taliad uniongyrchol ei ystyried yn incwm, felly ni fydd yn effeithio ar eich treth incwm.

Dylech fod yn fodlon ac yn gallu rheoli'r taliadau uniongyrchol, ond mae llawer iawn o gefnogaeth a chymorth ar gael.

Gallwch dderbyn taliadau uniongyrchol os ydych yn:

- rhywun dros 16 oed sy'n darparu gofal rheolaidd a sylweddol i oedolyn
- rhiant neu'n unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl
- unigolyn anabl â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn
- person ifanc dros 16 oed sy'n anabl
- rhywun rhwng 18-64 oed sy'n derbyn gwasanaethu gofal yn y gymuned
- rhywun dros 65 oed sy'n derbyn gwasanaethu gofal yn y gymuned

Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais, cysylltwch â'r Gwasanaethau

Cymdeithasol trwy ffonio'ch Tîm Adnoddau Cymunedol lleol:

Ardal Llŷn ar **01758 704099**

e-bost: OedolionLlyn@gwynedd,llyw.cymru

Ardal Caernarfon ar **01286 679099**

e-bost: OedolionCaernarfon@gywnedd.llyw.cymru

Ardal Bangor ar **01248 363240**

e-bost: OedolionBangor@gwynedd.llyw.cymru

Ardal Eifionydd-Gogledd Meirionnydd ar **01766 510300**

e-bost: OedolionEifionydd/GogMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

Ardal De Meirionnydd ar **01341 424499**

e-bost: OedolionDeMeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru